



## Cardiau stori 1

Aeth Guto i gae ger gorsaf Maesgwyn gyda'i fag ar ei ysgwydd.

Tynnodd Guto finociwlars allan o'i fag er mwyn gweld trê'n y *Royal Scotsman*.

Gwelodd fwg yn y pellter. Roedd y trê'n yn dod!

Gwelodd Guto yr injan fawr, enwog yn disgleirio yn yr haul.

Yn sydyn, trwy'r binociwlars, gwelodd Guto ddrws un o'r cerbydau'n agor!

Tu mewn i'r cerbyd gwelodd dau ddyn yn ymladd yn ffyrnig â'i gilydd.

Yr eiliad nesaf gwelodd ddyn yn cwympto allan o'r cerbyd ac yn rowlio lawr i'r cae yn ymyl yr afon.

Yna roedd y trê'n wedi mynd a'i sŵn wedi diflannu yn y pellter.



## Cardiau stori 2

Gadawodd Guto y tŷ gyda'i fag ar ei ysgwydd a ffarwelio â'i fam ond yn lle mynd i'r ysgol aeth Guto i gae ger gorsaf Maesgwyn.

Tynnodd Guto finociwlars allan o'i fag a gwyllo'r rheilffordd trwy'r binociwlars er mwyn ceisio gweld trê'n y *Royal Scotsman*.

Gwelodd blufen o fwg yn y pellter. Roedd y trê'n yn dod! Gallai glywed sŵn rhytmig yr injan.

Gwelodd Guto yr injan fawr, enwog yn disgleirio yn yr haul wrth iddi agosáu at orsaf Maesgwyn.

Yn sydyn, trwy'r binociwlars, gwelodd Guto ddrws un o'r cerbydau'n agor!

Tu mewn i'r cerbyd gwelodd dau ddyn yn ymladd yn ffyrnig â'i gilydd.

Yr eiliad nesaf gwelodd ddyn yn cwmpo allan o'r cerbyd yn bendramwnwgl ac yn rowlio lawr y llethr caregog i'r cae yn ymyl yr afon.

Yna roedd y trê'n wedi mynd a'i sŵn wedi diflannu yn y pellter.